Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2551A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion 9

Diwylliant sefydliadol 12

Strwythurau a phrosesau llywodraethu 19

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd 23

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 26

Atodiad 2 – canfyddiadau arolwg y staff 33

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Dylai ansawdd fod wrth wraidd pob agwedd ar ofal iechyd ac mae rhoi ansawdd a diogelwch cleifion yn anad popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus hefyd o ran niwed, gwastraff ac amrywiad. Mae angen rhoi fframwaith llywodraethu cadarn ar waith ar sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt er mwyn helpu i sicrhau y darperir gofal iechyd diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro safonau gofal, gan eu gwella yn ôl yr angen.

2 Atgyfnerthwyd y sbardun i wella ansawdd mewn strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol olynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd ar draws y system, yn ogystal â rhoi dyletswydd ar gyrff y GIG i fod yn ddidwyll, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith er mwyn galluogi dysg. Mae'r Ddeddf yn nodi bod ansawdd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

3 Mae'n rhaid i ansawdd a diogelwch dreiddio bob agwedd ar y broses o gynllunio ac o ddarparu gwasanaethau, gan fod yn amlwg yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff y GIG. Disgwylir i gyrff y GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel y bwrdd a thrwy'r holl leoliadau gwasanaethau, partneriaethau a gofal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythuredig blynyddol ledled Cymru wedi tynnu sylw at heriau amrywiol, gan gynnwys yr angen i wella'r llifau sicrwydd o ran ansawdd a diogelwch, goruchwylio archwiliadau clinigol, a'r gwaith o olrhain canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu pryderon proffil uchel hefyd ynghylch ansawdd gofal a dulliau llywodraethu cysylltiedig mewn cyrff GIG unigol.

4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu o ansawdd yn effeithiol a bod cyrff y GIG yn parhau i ganolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio presennol GIG Cymru yn adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu o ansawdd yn cefnogi goruchwyliaeth sefydliadol dda o'r niwed hyn yn rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.

5 Archwiliodd ein harchwiliad a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Canolbwyntiwyd ar y dull gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, y diwylliant ac ymddygiad sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifau gwybodaeth ac adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill

a mis Gorffennaf 2021. Er mwyn profi'r safbwynt 'o'r llawr i'r bwrdd', gwnaethom archwilio'r trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol. Gwnaethom adolygu hefyd y trefniadau lefel uchel ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau darparwyr.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel a'i fod wedi cymryd camau i wella ei drefniadau llywodraethu ansawdd. Mae gwaith o hyd o ran ymwreiddio'r trefniadau hyn, mynegi blaenoriaethau ansawdd y sefydliad a sicrhau bod mesurau ar waith i ddangos a monitro i ba raddau y cyflawnwyd y dasg o ysgogi gwelliannau ar draws yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynwyd.**

7 Mae ymrwymiad clir i sicrhau y darperir gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel a gefnogir gan fframweithiau corfforaethol a thrwy wella'r broses o reoli risgiau. Mae gan y Bwrdd Iechyd werthoedd ac ymddygiad sefydledig ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi pryderon. Mae cyflwyno'r Fframwaith Ansawdd Clinigol newydd yn gam cadarnhaol ac mae hyn yn dechrau cryfhau'r gwaith llywodraethu gweithredol, yn ogystal â chynyddu adnoddau.

8 Fodd bynnag, mae angen i'r blaenoriaethau ansawdd a'r mesurau llwyddiant fod yn gliriach er mwyn mesur yr effaith a'r gwelliant. Mae angen i'r gwaith o gasglu sylwadau cleifion fod yn fwy cyson ac mae angen gwell systemau i ddangos yr hyn a ddysgir. Mae cyfyngiadau capasiti yn y tîm pryderon yn parhau i fod yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae lle hefyd i ehangu'r adroddiadau perfformiad presennol er mwyn sicrhau bod pwyslais cliriach ar faterion ansawdd sy'n cwmpasu ehangder y gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal â datblygu dangosfwrdd ansawdd sy'n adlewyrchu natur unigryw y Bwrdd Iechyd.

## Argymhellion

9 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu**<br>A1 Y fframwaith sicrwydd comisiynu yw'r dull o roi sicrwydd ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drigolion Powys.<br>• Adolygu'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i gynnwys mesurau ar y safonau gofal a ddarperir neu ar ganlyniadau cleifion. |
| **Fframwaith Ansawdd Clinigol**<br>A2 Mae'r fframwaith ansawdd clinigol presennol yn nodi'r camau sydd eu hangen i wella'r broses o lywodraethu ansawdd clinigol. Nid yw'n nodi'n glir y dulliau sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd i ddarparu goruchwyliaeth strategol a gweithredol.<br>• Datblygu map llywodraethu fel y gall y sefydliad nodi'n glir yr ystod o weithgareddau sydd ar waith ar lefel strategol a gweithredol er mwyn sicrhau bod llinell olwg glir o'r gwasanaeth at y Bwrdd a nodi unrhyw orgyffyrddiadau neu fylchau sy'n bodoli rhwng grwpiau. |
| **Alinio Fframweithiau**<br>A3 Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith ansawdd clinigol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd, a fframwaith sicrwydd comisiynu sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer rhoi sicrwydd ar ansawdd gwasanaethau. Mae'r fframwaith sicrwydd comisiynu wedi canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau a gomisiynwyd, fodd bynnag, mae bwriad i roi'r dull hwn o weithredu ar waith mewn gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol (ar waith ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Mamolaeth). Mae synergeddau posibl rhwng y fframweithiau hyn, a dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried adleoli'r ddau fframwaith hyn er mwyn adeiladu ar y rhyngberthnasau ymhellach.<br>• Adolygu'r potensial o ran alinio'r Fframwaith Ansawdd Clinigol a'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. |

**Argymhellion**

**Pryderon a Chwynion**

A4 Oherwydd bod canran sylweddol o weithgareddau yn cael ei darparu gan wasanaethau a gomisiynwyd, mae angen eglurder gwell wrth oruchwylio cwynion gan drigolion Powys ynghylch y gwasanaethau hyn.

- Sicrhau bod yr holl gwynion gan drigolion Powys (a adroddir i'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) ynghylch gwasanaethau a gomisiynwyd yn cael eu casglu a'u hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion.
- Diweddaru'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfrifoldeb am y gwaith o fonitro ac adrodd cwynion.

**Mesurau Perfformiad**

A5 Canfu ein gwaith fod angen mynegi'r mesurau ansawdd sydd ar waith ar draws yr ystod o wasanaethau a ddarperir. Roedd angen nodi'r rhain yn glir â llinell sylfaen a gynhaliwyd er mwyn mesur llwyddiant y fframwaith ansawdd clinigol.

- Datblygu dangosfwrdd ansawdd sy'n mynegi'r mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd, er mwyn mesur llwyddiant a dangos gwelliannau.

**DATIX**

A6 Canfu ein gwaith mai dim ond rhai staff ar lefel gorfforaethol a gafodd gymorth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio system DATIX i adrodd pryderon a damweiniau a fu bron a digwydd.

- Sicrhau bod yr holl staff corfforaethol yn cael hyfforddiant sy'n briodol i'w swyddogaeth.

**Hyfforddiant**

A7 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig o ran sicrhau diogelwch a lles staff a chleifion; fodd bynnag, mae lefel y cydymffurfio yn methu â bodloni'r gofynion yn aml.

- Sicrhau bod yr holl gydymffurfio statudol a gorfodol o ran hyfforddiant yn cyflawni'r targed gofynnol.

**Argymhellion**

**Dadansoddi Data**

A8 Canfu ein gwaith nad oedd gan y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol ddangosfwrdd ansawdd i ddarparu gwybodaeth am berfformiad, a gwelsom hefyd, yn y Bwrdd Iechyd, nad oedd tîm dadansoddi data pwrpasol i ddadansoddi a dehongli data ar ansawdd a diogelwch. Heb yr wybodaeth hon, mae'n anodd darparu llinell sylfaen ar berfformiad, asesu cynnydd neu nodi'r meysydd y mae angen gwella perfformiad ynddynt.

- Er mwyn deall a gwerthuso perfformiad yn well, meithrin gallu yn y timau gweithredol i gynnal dadansoddiad dadansoddol yn eu timau.

# Adroddiad manwl

## Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion

10 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae blaenoriaethau sydd wedi eu diffinio'n glir ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion, ac i ba raddau y llinierir y risgiau i'w cyflawni nhw'n effeithiol.

11 Canfuom fod **ymrwymiad clir i sicrhau y darperir gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel a gefnogir gan fframweithiau corfforaethol a thrwy wella'r broses o reoli risgiau. Mae lle i ddatblygu blaenoriaethau ansawdd cliriach ac i fynegi mesurau llwyddiant er mwyn mesur effaith a gwelliant.**

### Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch cleifion

12 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau ansawdd o'i wasanaethau a gomisiynir ac a ddarperir ac mae wedi datblygu fframweithiau ategol i gyflawni hyn, ond nid yw wedi diffinio metrigau na blaenoriaethau ansawdd mesuradwy, na defnyddio asesiadau o'r effaith ar ansawdd wrth adolygu'r gwasanaethau a ddarperir.**

13 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd flaenoriaethau ansawdd na diogelwch cleifion annibynnol. Yn hytrach, mae wedi dangos ei ymrwymiad i ddarparu gofal clinigol o'r ansawdd uchaf i'w boblogaeth leol drwy ei strategaeth 'Powys Iach Ofalgar', sef Cynllun Tymor Canolig Integredig a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.

14 Yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae 'Ansawdd a Phrofiad Dinasyddion' yn flaenoriaeth sefydliadol i'r Bwrdd Iechyd. Yn gysylltiedig â hyn, mae nifer o gamau gweithredu â blaenoriaeth, megis datblygu cynllun gwella digwyddiadau difrifol a sefydlu panel craffu ar wlserau pwyso. Mae cynllun blynyddol 2021-22 yn nodi'n glir bod ansawdd a gwelliant clinigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth i'r Bwrdd Iechyd symud tuag at adfer yn sgil COVID-19. Mae Strategaeth Iechyd a Gofal Powys, 'Powys Iach Ofalgar' a gynhyrchwyd â Cyngor Sir Powys a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn 2017 yn dangos ymgysylltiad rhanddeiliaid mewn cysylltiad â'r angen i sicrhau gwasanaethau diogel o ansawdd uchel er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ar anghenion y boblogaeth.

15 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni gwasanaethau o ansawdd o'i wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu dau fframwaith a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Mae'r **Fframwaith Ansawdd Clinigol** y cytunwyd arno gan y Bwrdd yn 2020 yn nodi rhaglen waith i wella'r llywodraeth ansawdd, sydd yn ei thro, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau ansawdd gwell. Mae'r Fframwaith Ansawdd Clinigol yn amlinellu pum nod sefydliadol y mae ganddynt synergedd â'r cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynlluniau Blynyddol. Caiff y Fframwaith Ansawdd Clinigol ei lywio gan brosesau i raddau helaeth, gan nodi camau gwella ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae gan bob un o'r meysydd hyn gamau gweithredu penodol a nodir, yn ogystal â swyddog gweithredol arweiniol a ddewiswyd. Yn hanfodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi'r

blociau sylfaen ar waith i sefydlu a chryfhau prosesau a gweithdrefnau er mwyn cyflawni ei weledigaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio canlyniadau na safonau disgwyliedig y gellid cymharu â nhw er mwyn mesur ac asesu llwyddiant. Mae'r camau gweithredu a nodir yn y dogfennau presennol yn ymwneud â phrosesau y mae angen eu sefydlu er mwyn cefnogi llywodraeth o ansawdd effeithiol. O'n gwaith ni, ni wnaethom nodi unrhyw dargedau na blaenoriaethau lleol yn y grŵp gwasanaethau cymunedol.

16 Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gomisiynwyd, datblygodd y Bwrdd Iechyd **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu** yn 2018. Disgrifia'r fframwaith sicrwydd comisiynu broses sicrwydd barhaus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn ddiogel, yn bersonol, yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus. Mae pob darparwr ond un wedi ymrwymo i'r fframwaith hwn, ac ar hyn o bryd, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r rhesymau dros hyn gyda'r nod o fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol agos.

17 Ar hyn o bryd, nid oes dim y gellir cyfeirio ato o ran defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd ar gyfer cynlluniau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Mae'r asesiadau hyn yn gofyn i sefydliadau ystyried effaith newidiadau ac ailgynllunio posibl i wasanaethau ar ansawdd a diogelwch. Er bod y gwaith o ailgynllunio'r gwasanaeth podiatreg a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Awst 2020 yn cynnwys Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn cwmpasu'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau a nodweddion gwarchodedig, nid oedd asesiad ar effeithiolrwydd na chanlyniadau mewn cysylltiad â'r newid yn y gwasanaethau a ddarperid.

## Rheoli risgiau

18 **Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith rheoli risgiau clir, ac mae'r gwaith o adnabod a rheoli risgiau yn aeddfedu. Mae angen gwaith i ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yng ngoleuni'r blaenoriaethau strategol newydd ac i sicrhau bod llinell olwg gliriach o gofrestrau risgiau y gyfarwyddiaeth i'r gofrestr risgiau corfforaethol, ac i sicrhau bod camau lliniaru mewn cofrestrau yn ddigonol i roi sicrwydd.**

19 Diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei fframwaith rheoli risgiau yn 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio ei barodrwydd i dderbyn risg ac wedi datgan yn glir nad yw'n barod i dderbyn unrhyw risgiau sy'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae cofrestr risgiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd sy'n cwmpasu gwasanaethau a gomisiynir ac a ddarperir yn nodi nifer o risgiau, ac mae 60% ohonynt yn gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae swyddogion gweithredol yn adnewyddu'r gofrestr drwy adolygu eu portffolio o risgiau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu cofrestrau risgiau pwyllgorau, ac roedd y gwaith yn y maes hwn wedi dechrau ond fe'i gohiriwyd oherwydd COVID-19. Mae rhaglen waith ar y gweill i fapio'r pwyllgorau i'r risgiau yn ogystal â ffynonellau sicrwydd eraill, megis archwilio clinigol.

20 Nododd ein hasesiad strwythuredig yn 2020[1] fod gan y Bwrdd Iechyd system sy'n aeddfedu ar gyfer rheoli risgiau, ac yn rhan o'r ymateb i'r pandemig, ei fod wedi datblygu cofrestr risg aur COVID-19 benodol a oedd yn cael ei monitro yn aml. Mae'r risgiau ar gofrestr risg aur COVID-19 wedi eu huno â chofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd.

21 Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, fodd bynnag, yng ngoleuni'r pandemig a blaenoriaethau newidiol blynyddol y Bwrdd nad adroddwyd ers mis Ionawr 2020 yn y cyfamser, mae'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi parhau i gael ei hadrodd i'r Bwrdd, gan fynegi manylion y rheolaethau presennol a'r camau lliniaru o'u cymharu â phob risg.

22 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio DATIX ar gyfer rheoli risgiau ar hyn o bryd, yn lle hynny mae wedi datblygu system templedi Excel ar gyfer rheoli risgiau ar draws y sefydliad. Trwy ein gwaith, gwnaethom adolygu sampl o'r rhai hyn sy'n cael eu defnyddio, sy'n dangos eu bod wedi eu mabwysiadu'n eang gan y sefydliad, er y byddai symud i system electronig yn darparu llwybr tystiolaeth newidiadau mwy cadarn ar gyfer sgorio risgiau dros amser. Bydd y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru[2] yn ystod 2021, a bydd hyn hefyd yn cynnwys defnyddio modiwl rheoli risgiau DATIX.

23 Mae Grŵp Risg a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd yn arfer cwrdd pob deufis, gan adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol. Rhoddodd y Grŵp y gorau i weithredu ym mis Medi 2020 oherwydd COVID-19, ond disgwylir i gyfarfodydd ailddechrau ym mis Gorffennaf 2021. Prif ddiben y Grŵp yw trafod a sicrhau cysondeb o ran sgorio risgiau ar draws y Bwrdd Iechyd.

24 Mae hyfforddiant mewn rheoli risgiau wedi bod yn gyfyngedig. Ar adeg ein gwaith, nid oedd Aelodau Annibynnol wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol ynghylch risgiau, eu swyddogaethau na'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad â rheoli risgiau. Ni chyflwynwyd hyfforddiant ar gofrestrau risgiau yn ôl y bwriad oherwydd COVID-19, er bod y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu ag arweinwyr risgiau eraill ledled Cymru wrth ddatblygu modiwl hyfforddi rheoli risgiau safonol i'w ddefnyddio.

25 Yn 2019, buddsoddodd y Bwrdd Iechyd yn y gallu i reoli risgiau drwy benodi Pennaeth Risg a Sicrwydd a thrwy nodi'r lefel gywir o gymorth gweinyddol. Mae'r tîm rheoli risgiau bach, ymroddedig hwn (dau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn) yn darparu hyfforddiant a chymorth rheoli risgiau i dimau gweithredol. Mae arweinydd penodol ar gyfer rheoli risgiau yn y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol.

26 Yn rhan o'n gwaith, gwnaethom adolygu cofrestr risgiau y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a chofrestr risgiau y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (cyfarwyddiaeth). Roedd y cofrestrau hyn yn ddiweddar, ac roedd

[1] Archwilio Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - Asesiad Strwythuredig 2020, Tachwedd 2020

[2] Datblygwyd Rhaglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru o'r argymhellion yn Adroddiad Llywodraeth Cymru 'Defnyddio Cwynion yn Rhodd'. Bydd pob Bwrdd Iechyd yn symud i'r system hon rywbryd.

tystiolaeth o risgiau'n cael eu huwchgyfeirio yn briodol o'r gofrestr Gwasanaethau Cymunedol i'r Gofrestr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd yr oedd mesurau lliniaru ar goll ynddynt, ac nid oedd y dystiolaeth ar gyfer lleihau'r sgoriau risg yn glir.

27 Canfu ein harsylliad o grŵp ansawdd a phrofiadau cleifion y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol fod trafodaeth ar gofrestr risgiau y gyfarwyddiaeth, ond dim ond ar y risgiau coch yr oedd y rhain yn canolbwyntio, yn hytrach na chyfanrwydd y risg. Mae potensial i rai risgiau beidio â chael digon o drafodaeth. Mae risgiau lluosog sy'n gysylltiedig â rhai gwasanaethau, ee Radiotherapi, ond oherwydd nad yw'r rhain yn wedi eu nodi fel risgiau coch, nid ydynt yn denu llawer o sylw, ac o ganlyniad, collir cyfleoedd i wneud dadansoddiad risgiau mwy thematig yn y maes hwn. Mae potensial cael golwg fwy cyfannol ar risgiau'r gofrestr a'r broses o archwilio themâu i'w codi.

# Diwylliant sefydliadol

28 Dylai sefydliadau'r GIG ganolbwyntio yn barhaus ar wella ansawdd gofal a defnyddio adnoddau cyfyngedig i sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant ansawdd a diwylliant diogelwch sy'n canolbwyntio ar gleifion, gan gynnwys gwella cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, cymryd rhan mewn prosesau gwella ansawdd sy'n rhan annatod o strwythurau llywodraethu ehangach, gwrando a gweithredu ar sylwadau gan staff a chleifion, a dysgu gwersi.

29 Canfuom fod **Gwella ansawdd yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd, fodd bynnag, mae adnoddau'n gyfyngedig. Ceir gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig yn y sefydliad ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi pryderon. Mae gwaith o hyd o ran gwella cysondeb wrth gasglu sylwadau cleifion a dangos dysg o hyn.**

## Gwella ansawdd

30 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i dyfu ei allu i wella ansawdd. Bu gwell defnydd o archwiliadau clinigol, er bod cyfleoedd i ddefnyddio archwiliadau clinigol yn well fel ffynhonnell sicrwydd.**

### Adnoddau i gefnogi'r broses Gwella ansawdd

31 Yn gorfforaethol, mae gan y Bwrdd Iechyd dîm gwella ansawdd bach, ymroddedig iawn (0.5 aelod staff FTE), sy'n darparu hyfforddiant ar ddulliau gwella ansawdd i'r staff. Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd yw'r rhaglen hyfforddiant gwella ansawdd genedlaethol ar gyfer staff y GIG yng Nghymru. Nod y rhaglen yw datblygu'r gallu i wella ansawdd yn GIG Cymru gan ddefnyddio iaith gyffredin ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dangos bod

cyfran uchel (74%) o’r staff wedi cwblhau lefel Efydd hyfforddiant Gwella Ansawdd Gyda’n Gilydd. Mae’r tîm hefyd yn darparu cymorth penodol i staff sy’n cwblhau prosiectau gwella ansawdd ar gyfer lefel Arian Gwella Ansawdd Gyda’n Gilydd. Fodd bynnag, dim ond 1% o staff y Bwrdd Iechyd sydd wedi cyflawni Gwella Ansawdd Gyda’n Gilydd Arian.

32 Mae’r tîm gwella ansawdd wedi dechrau gweithio gyda’r Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella. Nod y fenter ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a Cyngor Sir Powys yw cydlynu a chefnogi ymchwil, gwella gwasanaethau, a chefnogi ffyrdd newydd o weithio ar lefel Powys gyfan. Mae’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio’r Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella i edrych ar ffyrdd arloesol o rannu dysg, er mai yn ei gamau datblygu cynnar y mae’r gwaith hwn ar hyn o bryd. Er mwyn cefnogi’r hwb, mae’r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio nifer bach o staff (2.4 FTE); nid yw’r staff hyn yn aelodau uniongyrchol o dîm gwella ansawdd y Bwrdd Iechyd. Ariennir yr adnodd hwn tan fis Mawrth 2022, a chyflogir y staff ar gontractau cyfnod penodol. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd werthuso effaith y fenter hon a cheisio ei hariannu ar sail fwy cynaliadwy os oedd hi’n llwyddiannus.

33 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu adnoddau er mwyn canolbwyntio ar ofal iechyd sy’n seiliedig ar werth drwy benodi Cyfarwyddwr Strategaeth a gofal iechyd sy’n seiliedig ar werth yn ddiweddar, yn rhan o weithgareddau’r Fframwaith Ansawdd Clinigol. Y nod ar gyfer y swyddogaeth hon yw cefnogi gofal iechyd darbodus sy’n seiliedig ar werthoedd i lywio’r broses gwella ansawdd.

34 Mae cynnydd o ran datblygu’r Strategaeth Effeithiolrwydd Clinigol a Gwella Ansawdd a nodir yn y fframwaith ansawdd clinigol wedi ei ohirio eto o ganlyniad i COVID-19. Mae’r gwaith hwn yn cynnwys defnyddio dull blaenoriaethol sy’n seiliedig ar risg i ddiffinio a chyflawni rhaglen targedau gwella ansawdd clinigol. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i’r Bwrdd Iechyd yn ystod 2021-22.

## Archwiliad Clinigol

35 Mae archwilio clinigol yn ffordd bwysig o roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol cymeradwy ar gyfer 2021-22 sy’n cwmpasu archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau o ganlyniadau a orfodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae’r cynllun hefyd yn cynnwys archwiliadau clinigol sy’n seiliedig ar flaenoriaethau a risgiau lleol a nodir gan uwch-reolwyr clinigol. Effeithiodd COVID-19 ar allu’r Bwrdd Iechyd i gyflawni Cynllun Archwilio Clinigol 2020-21 oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau, gyda staff yn cael eu hadleoli er mwyn canolbwyntio ar COVID-19. Adolygodd y Bwrdd Iechyd gynllun 2020-21 ac asesodd risg yr archwiliadau a oedd yn weddill ac ailbroffilio dyddiadau newydd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau, a’i ymgorffori yng nghynllun archwilio clinigol 2021-22.

36 Rhennir canfyddiadau a dysg archwiliadau clinigol â grwpiau gweithredol a strategol neu bwyllgorau. Cyflwynir adroddiadau i’r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Meddygol a’r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd a’r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion. Ystyriwyd canlyniadau

archwiliadau clinigol yn rhan o gyfres o wybodaeth hefyd yng nghyfarfod cyntaf a chyfarfodydd dilynol y Grŵp Dysgu o Brofiad chwarterol newydd a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Strategaeth Glinigol. Mae cyfansoddiad y grŵp hwn yn cynnwys Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n sicrhau dulliau o rannu gwybodaeth rhwng y grŵp hwn a'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd. Mae'r grŵp hwn wedi nodi materion o archwiliadau cenedlaethol ac wedi dechrau trafod rhai o'r materion a godwyd. Yn weithredol, mae cyfarfodydd gwella ac archwilio clinigol misol yn y Grŵp Gwasanaeth Menywod a Phlant a'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol yn nodi ac yn rhannu dysg. Dim ond trefniadau diweddar yw'r holl drefniadau hyn, ac mae angen iddynt ymwreiddio a gwireddu'r manteision arfaethedig, er hynny, mae'r arwyddion cynnar yn fuddiol ac fe'u croesawyd gan y staff.

37 Cyfyngedig yw'r adnoddau corfforaethol ar gyfer archwiliadau clinigol, gyda 0.5 aelod staff FTE yn unig; er hynny, mae'r galw am archwiliadau clinigol yn cynyddu. Mae gwaith ailarchwilio er mwyn sicrhau bod dysg wedi ei hymwreiddio a bod canlyniadau gwell hefyd yn faes y mae angen gwneud rhagor o waith ynddo. Yn ogystal â hynny, dylai archwiliadau clinigol fod yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd yn fframwaith sicrwydd y bwrdd ac mewn cofrestrau o risgiau corfforaethol a gweithredol, fodd bynnag, nid oedd hyn yn amlwg yn y dogfennau a adolygwyd.

## Adolygu marwolaethau

38 Mae cyfarfodydd adolygu marwolaethau ac afiachedd amlddisgyblaethol yn darparu dull systematig fel y gall gymheiriaid adolygu digwyddiadau andwyol, cymhlethdodau neu farwolaethau er mwyn dysgu a myfyrio ar ofal cleifion, gan ei wella. Mae hwn yn faes cadarnhaol i Bowys, sef yr unig fwrdd iechyd yng Nghymru a dreialodd swyddogaeth yr arholwr meddygol newydd ochr yn ochr â phum sefydliad arall ledled y Deyrnas Unedig. Mae prosesau clir ar waith ar gyfer adolygu marwolaethau ac afiachedd, ac adroddwyd canlyniadau yn ogystal â dysg yn rheolaidd i'r pwyllgor Profiad ac Ansawdd a Diogelwch a'r Grŵp Dysgu o Brofiad. Dangoswyd enghreifftiau o'r hyn a ddysgwyd, er enghraifft, arweiniodd pryderon a godwyd yn ddiweddar ynghylch cwblhau dogfennau ffurfiol ar ofal diwedd oes at ffurfio grŵp bach i lunio'r set ddelfrydol o nodiadau ac ymrwymiad i ddiweddaru'r polisïau clinigol sefydliadol.

39 Ar hyn o bryd, nid yw pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd yn goruchwylio unrhyw adolygiadau marwolaethau a ymgymerir mewn darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer trigolion Powys. Ceir goruchwyliaeth gorfforaethol drwy'r fframwaith sicrwydd comisiynu ble mae achosion sydd wedi bod yn destun ymchwiliad i ddigwyddiad difrifol mewn gwasanaeth a gomisiynwyd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Iechyd. Roedd disgwyl i system reoli Unwaith i Gymru sefydlu'r swyddogaeth graidd ar gyfer dysgu o'r system farwolaethau, fodd bynnag, mae ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd wedi gohirio'r broses o roi hyn ar waith.

## Gwerthoedd ac ymddygiad

40 **Mae fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig ar waith, gyda chynlluniau i ailedrych ar hyn yn fuan. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i adrodd am eu pryderon, fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud o ran cefnogi staff sy'n profi bwlio ac aflonyddwch.**

41 Cyhoeddwyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad y Bwrdd Iechyd yn 2015 sy'n nodi ei weledigaeth ar gyfer diwylliant ansawdd a diwylliant diogelwch sy'n canolbwyntio ar gleifion, sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus, ar fod yn agored, tryloywder, ac ar ddysgu pan fo pethau'n mynd o chwith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru'r fframwaith ochr yn ochr â'i fframwaith datblygu strategol ar lefel sefydliadol er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadol. Mae cynefino staff yn cynnwys disgwyliadau mewn cysylltiad â'r fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad yn ogystal â'r cymorth y gall staff ei ddisgwyl er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel.

42 Datgelodd ein gwaith ddarlun amrywiol mewn cysylltiad â'r diwylliant sy'n ymwneud ag adrodd camgymeriadau, damweiniau a fu bron a digwydd neu ddigwyddiadau a chodi pryderon. O'r staff a gwblhaodd ein harolwg[3], roedd (81%) ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn annog y staff i adrodd camgymeriadau, damweiniau a fu bron a digwydd neu ddigwyddiadau. Roedd rhai aelodau o staff (54%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, damwain a fu bron a digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad. Roedd mwyafrif y staff (65%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn gweithredu er mwyn sicrhau nad yw camgymeriadau, damweiniau a fu bron a digwydd na digwyddiadau yn digwydd eto.

43 Mae'n gadarnhaol bod y staff a ymatebodd i arolwg staff diweddar GIG Cymru[4] wedi nodi lefelau isel o fwlio, aflonyddwch neu gam-drin gan gydweithwyr eraill, aelodau o'r cyhoedd neu reolwyr llinell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (14.6%, 10%, ac 8.6%, yn y drefn honno). Fodd bynnag, mae angen gweithredu o hyd er mwyn mynd i'r afael â phryderon staff sy'n profi bwlio, aflonyddwch neu gam-drin, o ystyried mai llai na hanner y staff (45.7%) oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn cymryd camau effeithiol pan fo hynny'n digwydd.

44 Anogir staff i ddefnyddio DATIX i adrodd digwyddiadau, a mynegwyd diwylliant cadarnhaol o ran adrodd digwyddiadau yn ystod ein cyfweliadau, fodd bynnag, yn gorfforaethol, dim ond rhai aelodau staff sy'n cael cymorth a hyfforddiant ar sut i

[3] Gwnaethom wahodd staff gweithredol sy'n gweithio ar draws y grŵp gwasanaethau cymunedol i gymryd rhan yn ein harolwg o agweddau ar-lein ynghylch trefniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd gyhoeddusrwydd i'r arolwg ar ein rhan. Er nad yw'r canfyddiadau'n debygol o gynrychioli safbwyntiau yr holl staff ar draws gwasanaethau cymunedol, rydym wedi eu defnyddio i ddangos materion penodol.

[4] Cynhaliwyd arolwg staff GIG Cymru am dair wythnos ym mis Tachwedd 2020, yr un pryd ag ail don y trosglwyddiadau COVID-19 a nifer cynyddol o dderbyniadau i'r ysbyty. Naw ar hugain y cant o'r staff a ymatebodd i'r arolwg.

ddefnyddio system DATIX i adrodd pryderon a damweiniau a fu bron a digwydd. Noda'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol yn ei arolwg fod ei holl staff yn cael cymorth neu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio system DATIX i adrodd digwyddiadau neu ddamweiniau a fu bron a digwydd.

45 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch a lles staff a chleifion; er hynny, mae ein Hasesiad Strwythuredig blynyddol wedi canfod bod cydymffurfio yn llai na'r hyn sy'n ofynnol yn aml. Yn y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol, dim ond (42%) o'r staff a ymatebodd i'n harolwg a gytunodd neu a gytunodd yn gryf fod ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol. Er mwyn gwella cydymffurfiaeth, dywedodd y grŵp gwasanaethau cymunedol wrthym fod rheolwyr lleol yn gweithio gyda thimau i wella'r sefyllfa yn sgil COVID-19.

46 Mae gwella cydymffurfiaeth ag adolygiadau datblygu ac arfarnu personol yn faes arall i'r Bwrdd Iechyd bwysleisio arno. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gyfradd gydymffurfio o 69% ym mis Mai 2021, sy'n is na'r targed o 85% er mai'r pedwerydd bwrdd iechyd gorau yng Nghymru ydoedd. Mae hyn yn is na'r gyfradd ar gyfer blynyddoedd blaenorol, ond mae'r ymateb i'r pandemig a staff sy'n cael eu hadleoli wedi effeithio ar y gwaith cwblhau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â chyfarwyddiaethau er mwyn gwella cydymffurfiaeth, ac mae'r dasg o gyflawni hyn ar yr agenda ar gyfer rheolwyr cyfarwyddiaethau. Mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Bwrdd yn ymgymryd â gwaith craffu sefydliadol ar y metrig hwn.

## Gwrando a dysgu o sylwadau

47 **Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o ddulliau ffurfiol o gasglu profiadau cleifion, fodd bynnag, mae COVID-19 wedi effeithio ar y rhain. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Fframwaith a Strategaeth Ymgysylltu â Phrofiadau Cleifion newydd ac i roi system amser real newydd ar waith i gasglu sylwadau gan gleifion. Mae gwaith i'w wneud o hyd i ddangos tystiolaeth o'r hyn a ddysgwyd o'r sylwadau.**

### Profiadau Cleifion

48 Mae strategaeth profiadau cleifion presennol y Bwrdd Iechyd wedi dyddio. Yn rhan o'r Fframwaith Ansawdd Clinigol, mae cynlluniau i fynd i'r afael â hyn drwy ddatblygu Fframwaith a Strategaeth Ymgysylltu â Phrofiadau Cleifion newydd. Nod y Bwrdd Iechyd yw datblygu trefniadau i ddysgu o brofiadau cleifion er mwyn sicrhau bod profiadau cleifion yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad staff a gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch wedi ei ddargyfeirio i waith gweithredol ar bryderon, ac mae staff eraill wedi eu dargyfeirio i ardaloedd eraill oherwydd COVID-19, sydd wedi arwain at y fframwaith a'r strategaeth ymgysylltu â phrofiadau cleifion yn mynd ar ei hôl hi o ran yr amserlen, er bod gwaith wedi ailddechrau yn ddiweddar a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau ddiwedd 2021.

49 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion yn cael adroddiadau thematig rheolaidd ar bryderon a digwyddiadau sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi'r gwersi a ddysgwyd ac yn tynnu sylw at y camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny. Er mwyn galluogi trafodaeth fanylach ar faterion sy'n ymwneud â data adnabyddadwy cleifion, darperir rhagor o fanylion i sesiwn y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion yn y pwyllgor. Ar hyn o bryd, dim ond ar lefel gorfforaethol yr ystyrir yr adroddiadau hyn, fodd bynnag, mae cynlluniau i'r grwpiau gwasanaeth eu hunain ystyried adrifiad nesaf yr adroddiadau hyn er mwyn eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb am y camau gweithredu yn ogystal â'r pryderon.

50 Trwy ein gwaith, rydym wedi canfod diffyg eglurder wrth gasglu pryderon a chwynion gan wasanaethau a gomisiynwyd. Darperir llawer o wasanaethau i drigolion Powys gan wasanaethau a gomisiynwyd, a dim ond cwynion a adroddir yn uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd y mae'r adroddiadau presennol yn eu nodi. Mae angen rhagor o eglurder gan wasanaethau a gomisiynwyd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am bryderon a chwynion, gan sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael ei hysbysu ym mhob achos o bryder a godir gan drigolion Powys, a'r camau a gymerir mewn ymateb i hynny.

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Llywio Profiadau Cleifion sefydledig sy'n casglu ac yn monitro gweithgarwch profiadau cleifion, ar draws gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. Mae'r Grŵp, sy'n adrodd i'r tîm Gweithredol, yn cwrdd bob chwarter. Mae grwpiau gwasanaeth, megis y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol, yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio Profiadau Cleifion yn rheolaidd ar eu gweithgarwch profiadau cleifion, ac mae cynlluniau i'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion erbyn yr hydref. Mae'r mesurau profiadau cleifion a chanlyniadau yn cynnwys digwyddiadau a chwynion a chanfyddiadau o arolygon cleifion a chardiau sylwadau. Roedd tystiolaeth o themâu yn cael eu nodi drwy'r Grŵp Llywio Profiadau Cleifion, ond ni nodiwyd yn glir y camau gweithredu mewn ymateb iddynt.

52 Trwy ein gwaith, gwnaethom adolygu tystiolaeth o'r gwaith a wnaed i werthuso profiadau cleifion, megis arolygon diweddar ar y gwasanaeth podiatreg newydd, sy'n dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gael sylwadau gan gleifion. Yn dilyn y pryderon ynghylch gwasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford, gwnaed gwaith a dargedwyd gyda thrigolion Powys i ddeall eu profiadau er mwyn llywio'r trafodaethau parhaus ag Ymddiriedolaeth y GIG. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi hefyd yn ysgrifennu cynnig i brynu meddalwedd Civica, i'w alluogi i gasglu profiadau cleifion mewn amser real.

53 Yn rhan o'n gwaith, gofynnwyd i'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol am y dulliau a ddefnyddiwyd ganddo i geisio cael sylwadau cleifion a staff yn fwy cyffredinol, a sut y cafodd y ddysg o'r sylwadau hyn ei lledaenu. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cynnwys holiaduron cleifion, a llythyrau yn ogystal â chwestiynau uniongyrchol, a lledaenwyd y sylwadau drwy ei adroddiad profiadau cleifion a rennir â'r Grŵp Profiadau Cleifion ac mae cynlluniau i gyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor Ansawdd,

Profiad a Diogelwch Cleifion yn y dyfodol. Nododd y grŵp fod COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar y rhan fwyaf o weithgarwch profiadau cleifion. Roedd hyn oherwydd adnoddau staff cyfyngedig, yn ogystal â lleihad yn nifer y cleifion, yn rhan o'r trefniadau atal a rheoli heintiau. Mae ein harolwg staff yn dangos bod angen gwneud mwy i ledaenu gwybodaeth am brofiad cleifion i'r staff, o gofio bod llai na hanner (45%) y rhai a ymatebodd i'n harolwg wedi nodi eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynghylch sylwadau cleifion ar gyfer eu maes gwaith. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried hefyd sut y gall gasglu unrhyw bryderon sydd gan y staff am brofiadau cleifion. Ni allem weld unrhyw dystiolaeth bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i hystyried fel mater o drefn.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant ychwanegol ar ymchwilio i gwynion a digwyddiadau, ond mae COVID-19 wedi effeithio ar y broses o gyflwyno'r hyfforddiant hwn ymhellach. Nid oedd y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol yn gallu dweud wrthym beth oedd canrannau'r staff a oedd wedi dilyn hyfforddiant ar ymchwilio i gwynion neu hyfforddiant ar gynnal dadansoddiad o achosion sylfaenol.

### Hanesion Cleifion

55 Mae gan y Bwrdd ddulliau hefyd ar gyfer deall profiadau cleifion. Mae hanesion cleifion a adroddir gan unigolion o'u safbwynt eu hunain, ac mewn lleoliad gofal iechyd, yn gyfle i ddeall eu profiadau o'r gofal a dderbyniwyd, gan helpu sefydliadau i ddysgu'r da a'r drwg, a'r hyn y gellir ei wneud i wella'r profiadau hynny. Ar adeg ein harchwiliad, nid oedd y Bwrdd wedi derbyn hanes claf ers mis Ionawr 2020, ac ym mis Hydref 2020 y cafodd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion hanes claf ddiwethaf. Mae cynlluniau i ailddechrau y rhain o fewn y misoedd nesaf.

### Teithiau Cerdded Diogelwch

56 Mae teithiau cerdded diogelwch yn rhoi dealltwriaeth i aelodau'r bwrdd o'r realiti i staff a chleifion, yn helpu i wneud data'n fwy ystyrlon, yn cefnogi'r broses triongli, yn rhoi sicrwydd o fwy nag un ffynhonnell wybodaeth. Ar adeg ein harchwiliad, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd raglen sefydledig o deithiau cerdded er diogelwch cleifion, ond nododd ei fwriad i ddechrau'r rhain yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda chyfres ddiwygiedig o ganllawiau i gefnogi Aelodau Annibynnol.

# Strwythurau a phrosesau llywodraethu

57 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar lefel y bwrdd ac islaw lefel y bwrdd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel.

58 Canfuom fod **y fframwaith ansawdd clinigol newydd yn dechrau cryfhau trefniadau llywodraethu gweithredol er bod angen rhagor o amser fel y gall y trefniadau newydd ddatblygu ac ymwreiddio. Er y bu cynnydd bach mewn adnoddau llywodraethu o ansawdd, mae cyfyngiadau capasiti o hyd yn y tîm pryderon y mae angen mynd i'r afael â nhw.**

## Dylunio sefydliadol er mwyn cefnogi llywodraethu effeithiol

59 **Mae datblygiadau diweddar wedi cryfhau llinellau atebolrwydd a'r broses o oruchwylio gwaith craffu, er mwyn gwella llifau sicrwydd, ond mae angen ymwreiddio'r rhain.**

60 Ceir cydgyfrifoldeb clir am ansawdd a diogelwch cleifion ymhlith arweinyddiaeth Weithredol y Bwrdd Iechyd. Mae penodiadau sylweddol a wnaed i'r tîm Gweithredol yn ddiweddar, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd a'r Cyfarwyddwr Meddygol, wedi cryfhau hyn. Hefyd, ceir Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio yn awr, sy'n arwain ar Ansawdd a Diogelwch er mwyn darparu capasiti a phwyslais ychwanegol. Er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn sefydliad a arweinir yn glinigol mewn gwirionedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datgan ei fwriad o roi blaenoriaeth i'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth glinigol yn y fframwaith ansawdd clinigol.

61 Ym mis Mawrth 2021, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Dysgu o Brofiad i weithredu fel lle ble gall arweinwyr clinigol y sefydliad rannu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys archwiliadau clinigol ac adolygiadau marwolaethau, gyda'r nod o ledaenu dysg ar draws y sefydliad. Mae'r grŵp hwn wedi cwrdd ddwywaith, a darparwyd adroddiad ar i fyny ar ei waith i'r grŵp Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion sy'n amlinellu ei weithgareddau a'i gamau gweithredu arfaethedig. Mae arwyddion cynnar effaith y grŵp hwn yn gadarnhaol, gan ddangos triongli materion yn effeithiol o amrywiaeth o feysydd.

## Fframwaith Ansawdd Clinigol

62 Mae'r Fframwaith Ansawdd Clinigol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn 2020 yn nodi rhaglen waith er mwyn gwella llywodraeth o ansawdd dros gyfnod o dair blynedd. Oherwydd bod COVID-19 wedi rhoi pwysau ar y timau, mae'r cynnydd o ran gweithredu'r fframwaith wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Mae gwaith adolygu ac ailflaenoriaethu'r camau gweithredu, ac addasu'r amserlenni sy'n weddill, ar y gweill ar hyn o bryd.

63 Yn rhan o'r Fframwaith Ansawdd Clinigol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cytuno ar fethodoleg Gwella Ansawdd Clinigol, gan ei mabwysiadu. Ym mis Mehefin 2021, nododd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi diffinio na chyflwyno rhaglen o brosiectau gwella ansawdd eto ac nad oedd y gwaith o gytuno ar ddull gwella ansawdd clinigol a'i fabwysiadu, gan gynnwys y fethodoleg, wedi ei ddechrau eto. Ni chafwyd unrhyw ddiweddariad ynghylch yr amserlenni diwygiedig ar gyfer y gwaith hwn, fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2021-22.

64 Ar lefel strategol, mae'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu fframwaith ansawdd clinigol. Cadeiriwyd y Grŵp Llywodraethu Ansawdd a sefydlwyd yn 2019 gan y Prif Weithredwr i ddechrau, er mwyn goruchwylio dull llywodraethu y Bwrdd Iechyd. Diwygiwyd cylch gorchwyl y grŵp hwn yn ddiweddar ac er bod ei gylch gwaith yn aros yr un fath, newidiwyd yr arweinyddiaeth i'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Meddygol, gyda phresenoldeb holl Gyfarwyddwyr Cynorthwyol y grwpiau Gwasanaeth yn ogystal â galluogi llinell olwg glir o'r gwasanaeth at y Bwrdd. Hefyd, bydd y Grŵp Llywodraethu Ansawdd yn adrodd yn uniongyrchol i'r pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion yn awr, yn hytrach na mynd drwy'r pwyllgor Gweithredol. Mae'r pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion yn darparu goruchwyliaeth o'r broses o weithredu'r fframwaith ansawdd clinigol i'r Bwrdd, sy'n derbyn adroddiadau carreg filltir rheolaidd i nodi'r cynnydd, a'r meysydd sydd ar ôl y targed.

## Fframwaith Sicrwydd Comisiynu

65 Sefydliad comisiynu yw'r Bwrdd Iechyd yn bennaf. Mae'r gyfran fwyaf o'i gyllideb wedi ei neilltuo ar gyfer sicrhau gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gofal heb ei drefnu a gofal wedi ei gynllunio gan fyrddau iechyd cyfagos GIG Cymru ac ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Er mwyn sicrhau eu hun a'i boblogaeth breswyl o ddiogelwch, ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaethau hyn a gomisiynwyd, datblygodd y Bwrdd Iechyd fframwaith sicrwydd comisiynu yn 2018. Disgrifia'r fframwaith sicrwydd comisiynu broses sicrwydd barhaus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn ddiogel, yn bersonol, yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus. Adolygir profiadau cleifion hefyd yn ogystal â nifer y cwynion a digwyddiadau, er mwyn canfod ansawdd sy'n dirywio. Mae holl gyfarwyddiaethau'r Bwrdd Iechyd yn bwydo i mewn i'r broses hon, ac mae adroddiadau rheolaidd a

chyfarfodydd sicrwydd comisiynu a gynhelir gyda darparwyr i drafod perfformiad, ansawdd a diogelwch a phrofiadau cleifion. Mae'r fframwaith sicrwydd comisiynu yn defnyddio system sgorio ar draws pedwar maes ar gyfer darparwyr: y gallu i ddefnyddio gwasanaethau, cyllid a gweithgarwch, ansawdd a diogelwch a phrofiadau cleifion. Caiff pob darparwr ei raddio gan y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r pedwar maes, gan ddefnyddio proses coch/oren/gwyrdd. Cofnodir mesurau arbennig a lefelau ymyrraeth y Llywodraeth. Yna, caiff yr holl wybodaeth hon ei chasglu mewn dangosfwrdd lefel uchel er mwyn dangos ar gipolwg sgôr y darparwr. Mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd yn monitro ac yn craffu ar y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau sydd wedi eu huwchgyfeirio yn rhan o'r trefniadau perthnasol yn GIG Cymru a Lloegr, a/ neu'r rhai sy'n sgorio lefel 4 ar y fframwaith sicrwydd comisiynu.

66 Er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar ansawdd, mae gan y Bwrdd Iechyd arweinydd Comisiynu Ansawdd a Diogelwch, sy'n adrodd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch er mwyn cefnogi'r broses fframwaith sicrwydd comisiynu wrth asesu materion ansawdd a diogelwch mewn gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r arweinydd comisiynu Ansawdd a Diogelwch yn mynd i bob cyfarfod adolygu yr hyn a gomisiynir gyda darparwyr. Ar hyn o bryd, nid yw'r fframwaith sicrwydd comisiynu yn cynnwys unrhyw fesurau ar safonau'r gofal a ddarperir na chanlyniadau'r cleifion.

67 Er hynny, oherwydd y pandemig, nid yw'r trefniadau comisiynu arferol wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2020. Ers mis Gorffennaf 2021, mae gwaith wedi cynyddu er mwyn adfer y fframwaith sicrwydd comisiynu, ond mae cyfyngiadau sylweddol o hyd ac ni all trefniadau uwchgyfeirio weithredu yn y ffordd arferol; mae hyn wedi effeithio ar y broses o adrodd ar ansawdd yn ogystal â gwybodaeth am brofiadau cleifion.

## Y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol

68 Mae strwythur y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol yn cefnogi gweithio amlddisgyblaethol trwy Bennaeth Nyrsio a Phennaeth Therapïau. Mae'r Grŵp hefyd wedi penodi clinigydd arweiniol dros ansawdd a diogelwch yn ddiweddar ac mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol yn ei gefnogi i ddarparu arweinyddiaeth feddygol. Hefyd, nid oes swyddogaethau uwch-nyrsio ar gyfer y wardiau cleifion mewnol, sy'n gadael bwlch posibl o ran goruchwyliaeth nyrsio mewn wardiau arbenigol a chynnal arferion nyrsio a diwylliant o safon.

69 Mae'r grwpiau gwasanaeth ar draws y Bwrdd Iechyd wedi dechrau nodi'n ffurfiol eu trefniadau llywodraethu ansawdd a'u strwythurau diogelwch cleifion. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers 2020, ond, o ganlyniad i ddargyfeirio capasiti er mwyn ymateb i'r pandemig, mae wedi ei weithredu ar wahanol raddau ar draws y sefydliad. Ar adeg ein harchwiliad, roedd tri o'r pum grŵp gwasanaeth wedi cynhyrchu eu strwythur llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion i nodi'r prosesau ar gyfer goruchwylio ansawdd a diogelwch cleifion. Mae'r broses wedi cyflymu yn ddiweddar ac mae awydd i roi'r trefniadau newydd ar waith. Mae rhagor

o waith wedi ei gynllunio mewn cysylltiad â dirprwyo agweddau ar adrodd corfforaethol, gan gynnwys pryderon a digwyddiadau mewn grwpiau gwasanaeth er mwyn gwella goruchwyliaeth, annog grwpiau gwasanaeth i dderbyn cyfrifoldeb, a chraffu ar berfformiad ar lefel grwpiau gwasanaeth drwy wella'r broses o adrodd ar i fyny yn ystod y tri mis nesaf.

70 Gwnaethom adolygu'r trefniadau llywodraethu yn y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a gwelsom un o'u profiadau cleifion a'u grwpiau ansawdd. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob deufis ac mae ganddynt agenda safonedig. Ar hyn o bryd, nid oes dangosfwrdd ansawdd na diogelwch cleifion ar waith. Ar adeg ein gwaith, nid oedd cofnodion y cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion yn cael eu rhannu'n ffurfiol â'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd gweithredol. Nid oedd cofnodion yn cael eu rhannu â chyfarfodydd y gyfarwyddiaeth yn ffurfiol, er bod adrodd ar i fyny yn digwydd yn eithriad i hyn.

## Adnoddau ac arbenigedd er mwyn cefnogi llywodraethu o ansawdd

71 **Cyfyngedig yw adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cefnogi'r gwaith o lywodraethu ansawdd, ac mae cyfyngiadau capasiti hanesyddol yn y tîm pryderon yn effeithio ar amseroldeb yr ymatebion i gwynion, er bod penodiadau gweithredol diweddar yn gadarnhaol.**

72 Adolygodd y Bwrdd Iechyd yr adnodd sydd ar gael i gefnogi gwelliant i drefniadau llywodraethu ansawdd ar lefel gorfforaethol a gweithredol. Canfu fod angen cryfhau llywodraeth grwpiau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti a gallu ar lefel leol. Yn dilyn hyn, buddsoddodd y Bwrdd Iechyd mewn capasiti gweithredol ychwanegol ar draws rhai grwpiau gwasanaeth er mwyn cefnogi gweithgareddau gwella ansawdd megis archwilio clinigol, a chwynion ac ymdrin â digwyddiadau. Er enghraifft, sicrhaodd y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol gydraddoldeb â grwpiau gwasanaeth eraill yn ddiweddar (Mehefin 2021) drwy benodi arweinydd ansawdd.

73 Mae adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer profiadau cleifion a phryderon yn gyfyngedig. Nid oes tîm profiadau cleifion penodol, a'r tîm pryderon sy'n arwain yn y maes hwn. Amlygwyd hyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[5] yn ei adroddiad arbennig ym mis Hydref 2020 a roes y dasg i'r Bwrdd Iechyd o adolygu'r tîm ymdrin â chwynion a'i allu i ymdrin â chwynion mewn ffordd effeithiol ac amserol o dan y drefn Gweithio i Wella. Mae gallu'r tîm pryderon wedi bod yn gyfyngedig ers peth amser ac mae'r amseroedd a gymerir i ymateb i gwynion o fewn 30 niwrnod wedi bod yn isel yn hanesyddol. Fodd bynnag, roedd y data perfformiad diweddaraf ar gyfer mis Mai 2021 yn fwy cadarnhaol, gan ddangos ymateb i dros 90% o gwynion o fewn 30 niwrnod. Mae ôl-groniad o bryderon yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, nifer cynyddol o bryderon yn ymwneud â niwed posibl oherwydd COVID-19, a chynnydd mewn pryderon yn ymwneud â

[5] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Adroddiad Arbennig a gyhoeddwyd o dan adran 28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn dilyn cwyn a wnaed gan Mrs A yn erbyn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Hydref 2020

gwasanaethau a gomisiynwyd ac Ymarfer Cyffredinol. Mae'r diffyg capasiti wedi ei gydnabod, a chyda staff dros dro mewn swyddi, mae cynlluniau i wneud penodiadau sylweddol o fewn y chwe mis nesaf.

74 Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad mewnol o elfennau ehangach Gweithio i Wella mewn ymateb i adroddiad Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o gamau gweithredu ac wedi datblygu cynllun gweithredu, a ystyriwyd gan y pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r cynllun yn nodi nifer o gamau gweithredu yn ystod 2021, gan gynnwys hyfforddiant a datblygu strwythur tîm newydd, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro ei waith ar Gweithio i Wella drwy gyfarfodydd atebolrwydd a sicrwydd wythnosol y mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch yn trafod rheoli achosion a materion cymhleth ynddynt. Ceir cyfarfodydd wythnosol gyda thimau gweithredol hefyd er mwyn monitro'r gwaith o fynd i'r afael â phryderon.

75 Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch wedi gorfod camu i swyddogaeth fwy gweithredol oherwydd y cyfyngiadau capasiti yn y tîm pryderon. Mae hyn yn effeithio ar ei allu i weithio ar feysydd eraill ei gylch gwaith, gan gynnwys profiadau cleifion, DATIX a'r arweinydd comisiynu ar gyfer ansawdd a diogelwch hefyd. Mae galw cynyddol ar y tîm pryderon ar hyn o bryd.

# Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

76 Ystyriodd ein gwaith a yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ar lefel weithredol a strategol yn rhoi pwyslais digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

77 Canfuom **fod lle i ehangu'r adrodd presennol er mwyn sicrhau pwyslais cliriach ar faterion ansawdd sy'n cwmpasu ehangder y gwasanaethau a ddarperir ac sy'n adlewyrchu natur unigryw y Bwrdd Iechyd.**

## Gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd

78 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwaith craffu a sicrwydd a sylwebaeth ar y niwed sy'n deillio o COVID-19, fodd bynnag, byddai cyflwyno dangosfyrddau ansawdd ar lefelau corfforaethol a gweithredol yn cryfhau goruchwyliaeth.**

79 Ceir dealltwriaeth ac ymrwymiad clir gan y Bwrdd Iechyd bod adnabod a gweithio i asesu'r niwed sy'n deillio o COVID-19 yn hanfodol. Mae papurau'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion, a'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd ynghyd â'n cyfweliadau yn cydnabod yr angen i'r Bwrdd Iechyd weithio i nodi y rhain. Fodd bynnag, mae deall ac asesu niwed yn her sylweddol i'r Bwrdd Iechyd fel y mae i eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o fethodolegau asesu arfaethedig er

mwyn deall niwed ar draws y pedwar niwed[6] ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, ar ddangosyddion gofal eilaidd y mae'r methodolegau asesu hyn yn canolbwyntio, ac nid oes unrhyw fesurau arfaethedig sy'n ymwneud â gofal sylfaenol na gofal cymunedol, megis brechiadau i blant neu effeithiau ehangach ar iechyd y boblogaeth. Yn ei gamau cynnar y mae'r gwaith hwn ac mae gwaith ychwanegol i'w wneud o hyd fel gyda Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith i ddeall yn well y materion sy'n ymwneud â throsglwyddo COVID-19 mewn ysbytai. Lluniwyd adroddiadau a nodwyd yr hyn a ddysgwyd mewn cysylltiad â'r gwelliannau sydd eu hangen yn ansawdd data rhai systemau adrodd.

81 Mae systemau data yn y sefydliad yn cynhyrchu gwybodaeth ac mae timau lleol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth hon a chymorth i ddehongli gwybodaeth, ac maent yn gallu datblygu adroddiadau pwrpasol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ac nid oes gan y systemau presennol y gallu i gynhyrchu siartiau ystadegol na chymariaethau o'r naill flwyddyn i'r llall. Nid oes tîm dadansoddi data pwrpasol ar gyfer dadansoddi a dehongli data ar ansawdd a diogelwch, nid yn gorfforaethol nac yn weithredol.

82 Ar lefel weithredol, mae'r cyfarfodydd Ansawdd a Phrofiadau Cleifion yn y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol yn goruchwylio ansawdd a pherfformiad yn y grŵp gwasanaeth, sydd wedyn yn llywio cyfarfodydd arferol y gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a Chymunedol. Rhoes rhai o'r cyfarfodydd hyn y gorau i ddigwydd yn ystod COVID-19 ac roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio yn fwy ar risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn amlach, gan ganolbwyntio ar ddangosyddion ansawdd rheolaidd yn llai aml. Mae'r cyfarfodydd arferol wedi eu hailsefydlu bellach. Gwelsom un o'r grwpiau Ansawdd Gwasanaethau Cymunedol a Phrofiadau Cleifion, ac roedd yn cyd-fynd â'r agenda ddisgwyliedig fel y disgrifiwyd yn ei fframwaith llywodraethu ansawdd. Darparwyd gwybodaeth am brofiadau cleifion a oedd yn cynnwys Digwyddiadau Difrifol yn ogystal â chwynion a chanmoliaeth. Hefyd, roedd adroddiadau o bob maes yn nodi materion a phryderon i'w huwchgyfeirio. Fodd bynnag, nid oedd gan y grŵp ddangosfwrdd perfformiad o fetrigau ansawdd ar waith. Er bod y strwythur llywodraethu yn nodi disgwyliadau o ran adrodd ar ansawdd yn unol â Fframwaith cyflawni'r GIG a nodi mesurau, nid yw'r rhain yn cael eu hadrodd ar hyn o bryd.

83 Oherwydd nad oes dangosfyrddau diogelwch cleifion ar waith ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld crynodeb cyffredinol ar draws grwpiau gwasanaeth a nodi unrhyw dueddiadau a materion. Er mwyn gallu triongli ffynonellau gwybodaeth, ni chyflwynir materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, megis salwch. Hefyd, oherwydd natur y Bwrdd Iechyd, mae'n heriol cymharu ei berfformiad ar fesurau ansawdd ag eraill. O'r herwydd, gall fod yn anodd sicrhau cyd-destun digonol i nodi a yw'r ffigurau a adroddir yn peri pryder.

[6] Dylai sefydliadau fod yn monitro niwed posibl ar draws y pedwar cwadrant a nodir yn y fframwaith cynllunio gweithredol chwarterol.

## Cwmpasu materion ansawdd a diogelwch cleifion

84 **Mae lle i ehangu cwmpas materion ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel gorfforaethol a gweithredol, ac i sicrhau bod digon o gwmpas ar ofal sylfaenol yn ogystal â gwasanaethau eilaidd.**

85 Mae'r broses o adrodd ar berfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r fframwaith cyflawni cenedlaethol presennol, gyda'r 84 mesur ar waith sydd wedi eu mapio i bedwar nod Cymru Iachach. Mae'r adroddiadau hyn a gyflwynir i'r Bwrdd yn nodi gwybodaeth am dueddiadau yn glir, a darperir sylwebaeth i esbonio perfformiad a chamau gweithredu a gymerir i fynd i'r afael â meysydd pan nad yw'r perfformiad yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. Er ei fod yn unol â fframwaith cyflawni'r GIG, nid oes gan yr adroddiad perfformiad presennol unrhyw fesurau perfformiad ehangach penodol mewn meysydd megis Nyrsio Ardal, ac nid oes unrhyw fesurau y cytunwyd arnynt yn lleol ar waith. Nid oes unrhyw adroddiadau perfformiad eraill sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion a adroddir i'r Bwrdd.

86 Mae agendâu y pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion yn gytbwys ac fe'u llywir gan adroddiadau rheolaidd ar bryderon a chwynion. Mae adroddiad Gweithio i Wella yn cael ei lunio ar gyfer pob cyfarfod a dehonglir data a darperir gwybodaeth am berfformiad yn ogystal â sylwebaeth ar y camau a gymerwyd yn dilyn pryderon a digwyddiadau. Mae'r pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau a gomisiynwyd sy'n cael eu huwchgyfeirio drwy'r broses fframwaith ansawdd clinigol. Caiff perfformiad ar wasanaethau ei gynnwys mewn adroddiadau corfforaethol ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau ar y gweill yn rhan o'r Fframwaith Ansawdd Clinigol i'r grwpiau gwasanaeth lunio a chyflwyno eu hadroddiadau perfformiad eu hunain i'r pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion a Grŵp Llywodraethu Ansawdd a fydd yn galluogi gwaith craffu gwell ar Aelodau Annibynnol a gweithredol. Derbynnir adroddiad ar gynnydd archwilio clinigol yn y pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion hefyd fel mater o drefn, er mwyn rhoi sicrwydd ar y cynnydd wrth gyflawni cynllun archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd.

87 Mae'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol yn darparu portffolio unigryw o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio a therapi cymunedol cyffredinol, ochr yn ochr â gofal heb ei drefnu, a mân anafiadau, gan gynnwys cleifion allanol, llawdriniaeth ddewisol, endosgopi a gwasanaethau uwchsain diagnostig a radiograffeg. Nid yw'r adroddiadau ansawdd presennol a nodir yn ei strwythur llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion yn cwmpasu'r holl wasanaethau hyn, ac mae'r wybodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar leoliadau gwasanaeth mewn ysbytai mewn ymateb i fframwaith cyflawni cenedlaethol GIG Cymru. Mae gwaith archwilio blaenorol wedi nodi'r angen am fetrigau perfformiad sydd wedi eu haddasu'n well ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal, ond mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu**<br>A1 Y fframwaith sicrwydd comisiynu yw'r dull o roi sicrwydd ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drigolion Powys.<br>• Adolygu'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i gynnwys mesurau ar y safonau gofal a ddarperir neu ar ganlyniadau cleifion. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'r broses Sicrwydd Comisiynu er mwyn sicrhau:<br>(i) ei fod yn nodi/adlewyrchu risgiau cleifion/gwasanaethau yn sgil COVID-19; a<br>(ii) ei fod yn hygyrch (mewn fformat hawdd ei ddefnyddio) er mwyn ymgysylltu ag ystod ehangach o staff i'w galluogi i lywio barn gorfforaethol ynghylch risgiau cleifion/gwasanaethau. | Mawrth 2022 | Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Fframwaith Ansawdd Clinigol**<br>A2 Mae'r fframwaith ansawdd clinigol presennol yn nodi'r camau sydd eu hangen i wella'r broses o lywodraethu ansawdd clinigol. Nid yw'n nodi'n glir y dulliau sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd i ddarparu goruchwyliaeth strategol a gweithredol.<br>• Datblygu map llywodraethu fel y gall y sefydliad nodi'n glir yr ystod o weithgareddau sydd ar waith ar lefel strategol a gweithredol er mwyn sicrhau bod llinell olwg glir o'r gwasanaeth at y Bwrdd a nodi unrhyw orgyffyrddiadau sy'n bodoli rhwng grwpiau. | Mae newidiadau i bwyllgorau sicrwydd y Bwrdd ar gyfer 2021/22 wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd (Gorffennaf 2021) ac maent yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Mae adolygiad o'r grwpiau rheoli sy'n galluogi Pwyllgorau ar y gweill ar hyn o bryd. Ar ôl cymeradwyo strwythur grŵp rheoli diwygiedig, bydd y Fframwaith Ansawdd Clinigol yn nodi'n glir y dull sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer darparu goruchwyliaeth strategol a gweithredol. | Mawrth 2022 | Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Alinio Fframweithiau**<br>A3 Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith ansawdd clinigol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd, a fframwaith sicrwydd comisiynu sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer rhoi sicrwydd ar ansawdd gwasanaethau. Mae'r fframwaith sicrwydd comisiynu wedi canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau a gomisiynwyd, fodd bynnag, mae bwriad i roi'r dull hwn o weithredu ar waith mewn gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol (ar waith ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Mamolaeth). Mae synergeddau posibl rhwng y fframweithiau hyn, a dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried adleoli'r ddau fframwaith hyn er mwyn adeiladu ar y rhyngberthnasau ymhellach.<br>• Adolygu'r potensial o ran alinio'r Fframwaith Ansawdd Clinigol a'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. | Mae'r Fframwaith Ansawdd Clinigol yn nodi prif ddull strategol y Bwrdd Iechyd o ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel yn barhaus i bobl Powys. Bydd y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu yn cyd-fynd yn well â'r Fframwaith Ansawdd Clinigol.<br><br>Bydd y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu yn cael ei gymhwyso i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd. | 31 Rhagfyr 2021<br><br>Mawrth 2022 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Pryderon a Chwynion**<br>A4 Oherwydd bod canran sylweddol o weithgareddau yn cael ei darparu gan wasanaethau a gomisiynwyd, mae angen eglurder gwell wrth oruchwylio cwynion gan drigolion Powys ynghylch y gwasanaethau hyn.<br>• Sicrhau bod yr holl gwynion gan drigolion Powys (a adroddir i'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) ynghylch gwasanaethau a gomisiynwyd yn cael eu casglu a'u hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion. | Bydd y dulliau sicrwydd comisiynu presennol yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod yr holl gwynion gan drigolion Powys (a adroddir i'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) ynghylch gwasanaethau a gomisiynwyd yn cael eu casglu a'u hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion. | 30 Medi 2021 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Mesurau Perfformiad**<br>A5 Canfu ein gwaith fod angen mynegi'r mesurau ansawdd sydd ar waith ar draws yr ystod o wasanaethau a ddarperir. Roedd angen nodi'r rhain yn glir â llinell sylfaen a gynhaliwyd er mwyn mesur llwyddiant y fframwaith ansawdd clinigol.<br>• Datblygu dangosfwrdd ansawdd sy'n mynegi'r mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd, er mwyn mesur llwyddiant a dangos gwelliannau. | Yn y Fframwaith Ansawdd Clinigol (Nod 5), mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i 'D[d]atblygu systemau gwybodaeth, er mwyn galluogi gofal clinigol o ansawdd uchel ' (Nod 5) Bydd y ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar:<br>• adolygu a datblygu trefniadau monitro perfformiad ar gyfer gwasanaethau clinigol; sicrhau cysondeb â'r gwaith a wnaed ar y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu;<br>• adolygu a datblygu dangosfyrddau ward/adran a lefel gwasanaeth;<br>• datblygu trefniadau ar gyfer dehongli/dilysu yn glinigol y setiau data craidd sy'n ymwneud â gwasanaethau clinigol, gan gynnwys defnyddio a dehongli data wrth ddarparu sicrwydd; a<br>• datblygu/integreiddio dull meincnodi sefydliadol dilys a chadarn, gan ddefnyddio cymaryddion cenedlaethol/rhyngwladol pan fônt ar gael. | Medi 2022 | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **DATIX**<br>A6 Canfu ein gwaith mai dim ond rhai staff ar lefel gorfforaethol a gafodd gymorth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio system DATIX i adrodd pryderon a damweiniau a fu bron a digwydd.<br>• Sicrhau bod yr holl staff corfforaethol yn cael hyfforddiant sy'n briodol i'w swyddogaeth. | Yn rhan o roi System Rheoli Pryderon newydd Unwaith i Gymru ar waith, darperir rhaglen hyfforddiant lawn ar draws y sefydliad ac mae'n cynnwys yr holl staff perthnasol y mae angen mynediad arnynt. Caiff y rhaglen hyfforddi hon ei monitro, gan adrodd amdani, er mwyn sicrhau cwmpas llawn. Bydd datblygiadau hefyd yn cysylltu â'r rhaglen genedlaethol ynghylch gweithredu, hyfforddi a rhyddhau modiwlau. | Mawrth 2022 | Y Cyfarwyddwr Cyllid a TG |
| **Hyfforddiant**<br>A7 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig o ran sicrhau diogelwch a lles staff a chleifion; fodd bynnag, mae lefel y cydymffurfio yn methu â bodloni'r gofynion yn aml.<br>• Sicrhau bod yr holl gydymffurfio statudol a gorfodol o ran hyfforddiant yn cyflawni'r targed gofynnol. | Roedd cydymffurfiaeth hyfforddiant Statudol a Gorfodol yn 81% ym mis Awst 2021, sy'n dangos cynnydd o 1% o'i gymharu â'r mis blaenorol (80%). Mae'r tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn parhau i weithio gyda rheolwyr er mwyn gwella cydymffurfiaeth o ran Hyfforddiant Statudol a Gorfodol. Rhoddir pwyslais arbennig ar y meysydd hynny sy'n is na'r gyfradd cydymffurfio sefydliadol bresennol o 85%.<br>Bydd cyfarwyddwyr yn cymryd rôl bersonol o ran sicrhau bod hyfforddiant statudol a gorfodol yn eu swyddogaeth yn parhau i wella er mwyn cyrraedd y safon o 85%. | 31 Mawrth 2022 | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi Data**<br>A8 Canfu ein gwaith nad oedd gan y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol ddangosfwrdd ansawdd i ddarparu gwybodaeth am berfformiad, a gwelsom hefyd, yn y Bwrdd Iechyd, nad oedd tîm dadansoddi data pwrpasol i ddadansoddi a dehongli data ar ansawdd a diogelwch. Heb yr wybodaeth hon, mae'n anodd darparu llinell sylfaen ar berfformiad, asesu cynnydd neu nodi'r meysydd y mae angen gwella perfformiad ynddynt.<br>• Er mwyn deall a gwerthuso perfformiad yn well, meithrin gallu yn y timau gweithredol i gynnal dadansoddiad dadansoddol yn eu timau. | Yn y Fframwaith Ansawdd Clinigol (Nod 5), mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i 'Ddatblygu systemau gwybodaeth, er mwyn galluogi gofal clinigol o ansawdd uchel ' (Nod 5) Bydd y ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar:<br>• adolygu a datblygu trefniadau monitro perfformiad ar gyfer gwasanaethau clinigol; sicrhau cysondeb â'r gwaith a wnaed ar y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu;<br>• adolygu a datblygu dangosfyrddau ward/adran a lefel gwasanaeth;<br>• datblygu trefniadau ar gyfer dehongli/dilysu yn glinigol y setiau data craidd sy'n ymwneud â gwasanaethau clinigol, gan gynnwys defnyddio a dehongli data wrth ddarparu sicrwydd; a<br>• datblygu/integreiddio dull meincnodi sefydliadol dilys a chadarn, gan ddefnyddio cymaryddion cenedlaethol/rhyngwladol pan fônt ar gael. | Medi 2022 | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd |

# Atodiad 2

## Canfyddiadau arolwg y staff

**Arddangosyn 3 – canfyddiadau'r arolwg staff**

| Dadansoddiad o'r Ymatebwyr | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|
| Gweinyddol a Chlerigol | 3 |
| Proffesiynol sy'n Gysylltiedig ag Iechyd | 23 |
| Ategol | 15 |
| Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | 21 |
| Rheoli | 6 |
| Cynorthwy-ydd Nyrsio neu Ofal Iechyd | 13 |

| Dadansoddiad o’r Ymatebwyr | Nifer yr Ymatebion |
| --- | --- |
| Nyrs Gofrestredig | **51** |
| Arall | **5** |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy’n cytuno neu’n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr [7] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghy-tuno’n gryf | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | | | |
| 1. Gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad. | 61 | 52 | 13 | 11 | 1 | 138 |
| 2. Rwyf yn fodlon ar ansawdd y gofal a roddaf i gleifion. | 64 | 55 | 7 | 6 | 1 | 135 |
| 3. Mae digon o staff yn fy maes gwaith/adran i gefnogi’r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. | 18 | 32 | 33 | 32 | 16 | 134 |

[7] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr [8] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghy-tuno'n gryf | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | | | |
| 4. Mae fy amgylchedd gwaith yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol. | 38 | 57 | 20 | 14 | 4 | 133 |
| 5. Rwyf yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynghylch sylwadau cleifion ar fy maes gwaith/adran. | 16 | 45 | 36 | 28 | 7 | 132 |

[8] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr[9] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytu-no'n gryf | |
| **Rheoli pryderon cleifion a staff** | | | | | | |
| 6. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. | 42 | 50 | 24 | 7 | 3 | 126 |
| 7. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff. | 21 | 56 | 30 | 18 | 7 | 132 |
| 8. Mae fy sefydliad yn annog staff i adrodd camgymeriadau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. | 51 | 58 | 19 | 5 | 0 | 133 |

[9] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr[10] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytu-no'n gryf | |
| **Rheoli pryderon cleifion a staff** | | | | | | |
| 9. Mae staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, damwain a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad. | 27 | 47 | 36 | 6 | 1 | 117 |
| 10. Pan adroddir camgymeriadau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, mae fy sefydliad yn gweithredu er mwyn sicrhau na fyddant yn digwydd eto. | 34 | 54 | 30 | 3 | 2 | 123 |
| 11. Rhoddir sylwadau i ni am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, damweiniau a fu bron â digwydd a digwyddiadau a adroddwyd. | 19 | 41 | 43 | 24 | 2 | 129 |

[10] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr[11] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytu-no'n gryf | |
| **Rheoli pryderon cleifion a staff** | | | | | | |
| 12. Byddwn yn teimlo'n hyderus pe bawn i'n codi pryderon ynghylch ymarfer clinigol anniogel. | 45 | 63 | 14 | 8 | 4 | 134 |
| 13. Rwyf yn hyderus bod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch ymarfer clinigol anniogel. | 36 | 49 | 27 | 12 | 2 | 126 |

[11] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr[12] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | |
| **Gweithio yn fy sefydliad** | | | | | | |
| 14. Mae'r cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol. | 19 | 46 | 43 | 18 | 10 | 136 |
| 15. Mae fy sefydliad yn annog gwaith tîm. | 32 | 69 | 20 | 9 | 5 | 135 |
| 16. Mae gennyf ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a mandadol. | 16 | 41 | 31 | 37 | 11 | 136 |

[12] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr[13] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | |
| **Gweithio yn fy sefydliad** | | | | | | |
| 17. Mae'r trefniadau cynefino ar gyfer staff newydd a dros dro (ee staff asiantaeth/locwm/bank/staff a adleolir) yn fy maes gwaith/adran yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol. | 19 | 58 | 37 | 12 | 15 | 131 |

[13] Ni atebodd pob ymatebydd bob un cwestiwn felly gallai cyfanswm yr ymatebwyr amrywio fesul cwestiwn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.